

Introduction

from Specialist Estates Services Director Neil Davies



Welcome to the third issue of the Specialist Estates Services (SES) newsletter.

This edition focuses

on telling the story of the effectiveness of energy efficient and low carbon schemes implemented within NHS Wales over the past few years. In these austere times reducing energy usage is not only good for the environment it releases funds for vital frontline healthcare services and improves the economy through the development of jobs connected to the growth of the industry innovating and developing energy efficiency solutions. I hope you find the article by our Environmental Management Advisor, Chris Lewis, interesting. As usual if you have any comments relating to any of our current services or any service development ideas then please contact me and I'll be pleased to discuss them with you.

Email: neil.davies4@wales.nhs.uk
Tel: 029 2090 4117

How are we doing?

It would be extremely useful to receive feedback on this newsletter to help us know whether it meets your needs.

Please send all comments or suggestions for future content to Jennie Roe at:
jennifer.roe@wales.nhs.uk

Newsletter



Specialist Estates provides advice and support to the Welsh Government and NHS Wales on a wide range of estates and facilities matters. The department is made up of a range of specialised sections. Each newsletter will concentrate on a different department – in this edition of the Newsletter we look at our environmental services.

The environmental challenge facing NHS Wales in context...

Over recent years there have been many schemes, projects and developments undertaken to improve energy efficiency and reduce carbon across the NHS Wales estate. Chris Lewis, the Environmental Management Advisor at SES, undertook a study to examine the effectiveness of some of these schemes.

Overall, NHS Wales spends £37 million annually on energy, which translates to an annual total of 193,000 tonnes of CO₂ emissions. The expectation and year-on-year trend suggests that utility costs will continue to rise.

Additionally there are, of course, many policy and legislative challenges that NHS Wales has to comply with, such as the Carbon Reduction Commitment Energy Efficiency Scheme (CRC), a mandatory emissions trading scheme which currently affects all organisations that consume over 6 million kilowatt hours of grid electricity per year - that's all NHS Wales organisations with the exception of Powys Health Board, Velindre NHS Trust and the Welsh Ambulance Services NHS Trust.

What's inside

- Energy efficiency in NHS Wales - [page 3](#)
- Have a look at our latest guidelines - [page 5](#)
- Staff changes and catch up with all the relevant news - [page 8](#)
- Next issue ... EFPMS

The CRC basically requires obligated organisations to purchase carbon allowances to cover their reported consumption of utilities (excluding fuel oil and renewable) and the cost of these credits is currently £16.10 per tonne (or £17.20 if procured at the end of the compliance period). Typically health boards in Wales are faced with costs between £300,000 and £600,000 per annum to comply and as a result there is a clear incentive for organisations to look at initiatives to reduce their carbon emissions and therefore reduce their CRC costs.

The Study

A small sample of schemes representing different technologies, both conventional and low or zero carbon, were selected from across Wales. The study also examined different approaches to procuring and delivering them.

The schemes were:

- Light Emitting Diode (LED) lighting installation at Aneurin Bevan University Health Board,
- Combined Heat and Power (CHP) and absorption chiller installation at Nevill Hall Hospital,
- Ground source heat pump installation at Abergel Hospital,
- Small scale photovoltaic installation at Ysbyty Glan Clwyd,
- An energy performance contract at Hywel Dda University Health Board. The aim was to compare the types of energy efficiency or carbon reduction, to highlight good practice, learn lessons and to identify the successful initiatives that could be reproduced across NHS Wales organisations.



Energy Efficiency in NHS Wales



Key findings

LED lighting is an area for immediate consideration and could be used across NHS Wales. Working with the right installers, it is relatively quick and straightforward to install with minimal service disruption. It can deliver significant, long term ongoing savings and cost avoidance over traditional compact fluorescent lights.

Tri-generation (that is, combined cooling heat and power (CHP) - in this case CHP to provide electricity and thermal energy and absorption chiller to provide cooling) has clear potential in the right settings. The demand for cooling maximises the effectiveness of the CHP as it allows a greater use of the thermal output outside of the heating season.

The Ground Source Heat Pump in Abergel Hospital is worthy of further investigation as the initial analysis suggests the impact on the building performance is positive, however more data is needed to build confidence in the technology. Robust figures and reliable data are important in every scheme to ensure that projected performance is matched by actual performance. Solar Photovoltaic and other renewables can provide clear year on year savings, although this will be dependent on the Feed In Tariff (FIT) rates, which have been severely reduced. On the heating side, the Renewable Heat Incentive (RHI) has not been as badly affected to date, but the FIT changes highlight the importance of understanding and forecasting for the long term economic impacts of renewable subsidies.

Funding

Energy Performance Contracts (EPC) with a partnership approach and guaranteed minimum shared savings for large scale schemes, such as the RE:Fit Cymru framework, are an attractive source of capital where little central funding is available. It is vital to have a strong project team and to understand the level of resources required to monitor and maintain performance, and to build the good long term relationship with the EPC partner that is required to be successful in the long term.

The Welsh Government Invest To Save programme (I2S) is a significant potential source of funding to be considered. It is best suited to discrete schemes where the installation can be completed relatively quickly and payback is under 5 years approximately. However, it does require a 25% match funded contribution from the health board or Trust.

Chris would like to acknowledge the expert assistance provided by Energy Managers and their teams at Aneurin Bevan University Health Board, Betsi Cadwaladr University Health Board and Hywel Dda University Health Board. Without this the study could not have been completed.

The full report containing more in depth commentary and analysis is available from Christopher Lewis, NWSSP-SES
Christopher.lewis4@wales.nhs.uk or 02920 904096

A look at our Environmental and Energy Management Services

Chris Lewis is the Environmental Management Advisor at SES. His job is to advise NHS Wales organisations on all aspects of environmental and energy management related to the NHS estate and also to report to, and advise, Welsh Government.

Here he gives us a glimpse into his working world...

I've worked for SES for over 13 years now so have a pretty good grasp of environmental issues in NHS Wales. It's fair to say that my job has changed quite substantially in this time – when I started the focus was on clinical waste, recycling and other types of waste minimisation initiatives, but over the years I've acquired energy management and the focus in national policy has moved towards the wider sustainability agenda. Another area that's changing is ISO 14001, an international standard that specifies requirements for effective environmental management systems. All health boards and Trusts should have certification so my work has changed focus over the years from helping them to achieve this to supporting the processes that they now have in place.


All new build, or big capital funding projects for the Welsh Government are required to achieve 'excellent' or 'very good' under the Building Research Establishment Environmental Assessment Method (BREEAM) rating benchmark. It's essentially a sustainable assessment tool and works by allotting credits for sustainable elements of building design. The danger of such a system is that an organisation could build in an unsustainable way, but gain a good BREEAM score by adding on sustainable extras (such as putting photovoltaic panels on the roof). The way to prevent this from happening is to get involved in projects at an early stage and work closely with the business case team.

Environmental specialists are scattered throughout NHS Wales. It's therefore vital that we have a platform that allows us to share specialist environmental knowledge. I facilitate the Welsh Health Environmental Forum (WHEF) – a group that provides just such a networking and knowledge-sharing platform. This has been going strong now for 15 years.

There are 3 groups that meet quarterly to share good practice or problems, discuss and debate new technologies and legislation and I organise a presentation for each meeting. Our next presentation is a removal company that takes specialist equipment away from hospitals and university labs, refurbishes it and then sells it on for a share of the profit.

Any environmental or energy management related questions from health boards and Trusts should be directed to Chris Lewis at:

christopher.lewis4@wales.nhs.uk



New Guidelines

Welsh Health Building Notes (WHBNs) are a range of documents that provide guidance on the planning and design of a range of healthcare buildings providing specialist services in Wales. Since our last newsletter we have published the following:

[WHBN 00-02 - Revision 1, December 2016
Sanitary spaces](#)

[WHBN 03-01 Adult acute mental health units](#)



Welsh Health Technical Memoranda (WHTMs) are a range of documents that provide technical guidance on a wide range of specialist systems within the healthcare estate in Wales. Since our last newsletter we have published:

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Management and provision](#)

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Engineering, equipment and validation](#)

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Social care](#)

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Guidance for linen processors implementing BS EN 14065](#)

[WHTM 01-06 - Decontamination of flexible endoscopes Part D: Validation and verification \(including storage/drying cabinets\)](#)


[WHTM 01-06 - Decontamination of flexible endoscopes Part E: Testing methods](#)

[WHTM 04-01: Safe water for healthcare premises
- Part A: Design, installation and commissioning](#)


[WHTM 04-01: Safe water for healthcare premises
- Part B: Operational management](#)

[WHTM 04-01 Safe water for healthcare premises
- Part C: Pseudomonas aeruginosa – advice for augmented care](#)

[WHTM 08-02 - Lifts](#)



SES – Training Events



Periodically we run training events to meet demand from NHS Wales customers or to inform the Service of policy or legislative changes. Examples of events arranged in the last financial year include:

- Section 710 Medical Locations Training;
- BS5266-1 2016 Update Workshops;
- Primary Care Sale and Lease Back Workshops;
- ICEL Foundation Course on Emergency Lighting.
- 'Electrical Infrastructure within an Acute Hospital'.

If you have a topic you feel might be useful for us to cover as part of a training event then Phone Joanne Munn on 02920 904084 or email joanne.munn@wales.nhs.uk.

We look forward to hearing from you.



Customer Service Excellence

'Specialist Estates Services were found to have a deep understanding of, and commitment to, Customer Service Excellence. The commitment was displayed from Senior Management levels through to operations and front line staff'.

A glowing introduction to the most recent Customer Service Excellence award report received in February 2017. The award, received for a further 3 years, is testament to the hard work of all SES staff providing estates and facilities related services to NHS Wales and the Welsh Government. The continued support of all our customers is also crucial.

As part of this year's review the assessor visited Public Health Wales (PHW) to better understand the lease management work completed by Andrew Nash, who works in SES's Property section, relating to PHW's move from a number of properties across South Wales to the new Capital Quarter development on Tyndall Street, Cardiff. At the end-of-day feedback session the assessor commented as follows in relation to the visit:

'The work undertaken with Public Health Wales is outstanding. Sally Attwood, the Head of Strategic Programmes and Facilities for PHW provided very detailed information on the crucial role played by SES staff in the undertaking of a major, highly complex, project.'

The subsequent report highlighted the following:

- **Customer Insight:** SES has an in depth understanding of the various, and challenging, segmented requirements of customer need.
- **Customer Insight:** Customer insight forms the main bed rock of how SES goes about its business.
- **Customer Insight:** The detailed business approach to review strategies and practice, with customer service playing an important part of the considerations, is now seen to be making a difference
- **Information and Access:** The work with PHW is an example of outstanding careful, thoughtful, insightful and constructive work with customers/partners. The demonstrable and co-ordinated benefits were well set out by the client, who was very keen to stress the importance of the input.

SES Director Neil Davies attributed the success of this reassessment to the professionalism, expertise and commitment of all SES staff to meet and exceed customer service requirements.



Staff Update

Interviews and induction continue apace! A sizeable part of the last newsletter was attributed to bringing you up to speed with the significant number of service provider changes within SES - almost a quarter of the roles have changed within a year, predominantly due to retirement.

The initial flood of new staff has now turned to a trickle with only four new members of staff starting since October.

John Wright (john.wright2@wales.nhs.uk or 02920 904094), Facilities Management Advisor, has taken on the role previously provided by Gareth Jenkins. He will initially concentrate on the Estates and Facilities Performance Management System (EFPMS).

In November Joanne Munn (joanne.munn@wales.nhs.uk or 02920 904084), joined the business management team as Administrative Assistant, providing general support services to SES staff.

January and April saw Cerys Halford (cerys.halford@wales.nhs.uk or 02920 904114) and Nicole Kruger (nicole.kruger@wales.nhs.uk or 02020 904112), Property Surveyors, join the organisation to provide a range of property related services to health boards/Trusts.

On the last day of March Bryn Phillips, Estates and Property Advisor, retired after just shy of 13 years with us. Bryn played a significant part during that time in developing a property related service for the primary care sector, leading on the provision of advice and support on GP surgery third party developments. His knowledge, experience and personality will be sorely missed. Wishes for a long and happy retirement were plentiful.



Pictured: Cerys Halford and Joanne Munn



Pictured: Mark Gapper

Our Authorising Engineer for water, Mark Gapper checking out Margam Park for legionella

We should add that - despite carrying a knee injury - he completed the 10k obstacle run in an impressive time.

NHS Wales – History Corner

Through various guises over the years SES has had a long association with the health estate in Wales and we have an extensive photograph library of hospital buildings. It's difficult to predict the future for hospital construction in Wales, but the past is more certain. This edition's root around in the archives turned up...



From the cradle to the grave - Prince of Wales hospital

In 1914 a Red Cross hospital was established in a house in Cardiff that had been built originally for James Howell, the founder of Howell's department store. It treated service men injured in the First World War and, following the arrival of orthopaedic patients in 1917, became known as the Wales and Monmouthshire Hospital for Limbless Sailors and Soldiers. Part of the garden was laid out specifically to assist the rehabilitation of those fitted with artificial legs with a number of mounds and a winding pathway of varying gradients to allow the men to practise negotiating different terrains and prosthetic limbs were manufactured on site so that they could be custom built for each patient.

On the 20 February 1918 it was officially opened by the future Edward VIII and renamed the Prince of Wales Hospital. To mark the opening a cromlech was placed in the front garden and is still in place to this day.

Prince of Wales Hospital, Cardiff

The Glamorgan Archives record that as part of rehabilitation the men were taken out on a trip into Cardiff, but in a landscape that had not yet seen the creation of the public bench there was nowhere for the men to rest so they had to lean against railings or lie down on open ground.

The hospital expanded over the years and began treating civilians. In 1945 it was moved to a site outside of Cardiff, taking over an ex American army hospital that had been built by Canadians at the beginning of the Second World War and which consisted mostly of Nissen huts. The site was adapted for use although the buildings remained largely the same – the huts being connected by a corridor, the longest hospital corridor in the UK, and it developed as a specialist centre for the treatment of orthopaedic patients.

The temporary nature of the buildings finally put an end to the hospital as upkeep was prohibitively expensive and the Prince of Wales Hospital closed its doors in 1998.

Would you like us to feature your hospital?

If yes, please contact Suzanne Pullen at:
Suzanne.pullen@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasanaethau
Shared Services
Partnership

Contact Specialist Estates Services

Those working within NHS Wales can either use our [services directory](#) or [staff list](#) to find the right person for the job, and those outside NHS Wales can look up the staff list on our website.

Our postal address is:

3rd Floor Companies House,
Crown Way, Cardiff, CF14 3UB

**Designed and produced by
NWSSP Corporate Communications**

Cyflwyniad

gan Gyfarwyddwr
Gwasanaethau Ystadau
Arbenigol (GYA) Neil Davies



**Croeso i
drydydd rhifyn
Taflen Newydd
Gwasanaethau
Ystadau
Arbenigol.**

Nod y rhifyn hwn
yw siarad am
effeithiolrwydd cynlluniau sy'n
effeithlon o ran ynni a chynlluniau
carbon isel sydd wedi eu rhoi
ar waith gan GIG Cymru yn
y blynnyddoedd diwethaf. Yn y
cyfnod anodd hwn, mae lleihau'r
defnydd o ynni nid yn unig yn
dda i'r amgylchedd; mae hefyd
yn rhyddhau arian ar gyfer
gwasanaethau iechyd rheng flaen.
Yn ogystal, mae'n gwella'r economi
gan greu swyddi yn y diwydiant
sy'n datblygu datrysiau arloesol
sy'n effeithlon o ran ynni. Rwy'n
gobeithio y bydd yr erthygl gan
ein Hymgyngħorydd Rheoli'r
Amgylcheddol Chris Lewis o
ddiddordeb ichi. Fel arfer, os oes
gennych chi unrhyw sylwadau
yngħiġi ein gwasanaethau cyfredol
neu unrhyw syniadau am sut y gellir
eu gwella, cysylltwch â fi a bydda i'n
falch o'u trafod â chi.

E-bost neil.davies4@wales.nhs.uk
Ffôn: 029 2090 4117

Pa mor dda ydym ni'n ei wneud?

Byddai'n hynod o ddefnyddiol pe
bai mod derbyn adborth ar y daflen
newyddion hon i'n helpu ni i wybod
a yw'n bodloni'ch anghenion.

Anfonwch bob sylw neu unrhyw
awgrymiadau ar gyfer cynnwys yn y
dyfodol at Jennie Roe
jennifer.roe@wales.nhs.uk

Taflen Newyddion



Mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn darparu cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru yngħiġi l-ystod eang o ystadau a materion yn ymweud â chyleusterau. Mae'r adran yn cynnwys ystod o is-adrannau arbenigol. Bydd pob taflen newyddion yn canolbwytio ar is-adran wahanol - yn y rhifyn hwn byddwn ni'n edrych ar ein gwasanaethau amgylcheddol.

Yr her amgylcheddol sy'n wynebu GIG Cymru yn ei chyd-destun...

Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae sawl
cynllun, prosiect a datblygiad wedi bod,
oll â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni
a lleihau carbon ar draws ystâd y GIG.
Cynhaliodd Chris Lewis, Ymgynghorydd
Rheolaeth Amgylcheddol GYA,
astudiaeth i ymchwilio i effeithiolrwydd
rhai o'r cynlluniau hyn.

Yn gyffredinol, mae GIG Cymru yn
gwario £37 miliwn bob blwyddyn ar
ynnib, sy'n gyfwerth â 193,000 tunnell
o allyriadau CO₂ bob blwyddyn. Ar sail
faint o ynni a ddefnyddir bob blwyddyn,
disgwylir i gostau cyfleustodau barhau i
gynyddu.

Yn ogystal â hyn, mae sawl polisi a
deddf heriol y mae rhaid i GIG Cymru
gydymffurfio â nhw, megis Cynllun
Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad
Lleihau Carbon. Cynllun masnachu
allyriadau yw hwn sy'n berthnasol i bob
sefydliad sy'n defnyddio dros 6 miliwn
o oriau cilowat o drydan y grid bob
blwyddyn. Mae hyn yn berthnasol i bob
un o sefydliadau'r GIG ar wahân i Fwrdd
Iechyd Powys, Ymddiriedolaeth GIG
Felindre ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth
Ambiwlans Cymru GIG Cymru.

Cynnwys y rhifyn hwn

- Effeithlonrwydd Ynni yn
GIG Cymru - [tudalen 3](#)
- Bwriwch olwg dros ein
canllawiau diweddaraf -
[tudalen 5](#)
- Newidiadau staff a'r
newyddion diweddaraf -
[tudalen 8](#)
- Rhifyn nesaf... EFPMs

Yn y bôn, mae'r Ymrwymiad
Lleihau Carbon (YLIC) yn ei
gwneud yn ofynol i sefydliadau
sydd o dan rwymedigaeth i brynu
lwfansau carbon i dalu am eu
defnydd o gyfleustodau (heb
gynnwys tanwydd olew ac ynni
adnewyddadwy). Cost y credydau
hyn yw £16.10 fesul tunnell ar
hyn o bryd (neu £17.20 os cânt
eu prynu ar ddiwedd y cyfnod
cydymffurfio). Fel arfer bob
blwyddyn, mae Byrddau Iechyd
yng Nghymru yn wynebu costau
sydd rhwng £300,000 a £600,000
wrth gydymffurfio, ac o ganlyniad
mae hyn yn annog sefydliadau i
ystyried mentrau ar gyfer lleihau
allyriadau carbon a lleihau trwy
hynny eu costau.

Yr Astudiaeth

Dewiswyd sampl bach o gynlluniau o bob rhan o Gymru sy'n cynrychioli gwahanol dechnolegau, rhai confensiynol a rhai di-garbon fel ei gilydd. Aeth yr astudiaeth i'r afael hefyd â gwahanol ddulliau o'u caffael a'u darparu.

Dyma restr o'r cynlluniau:

- Gosod goleuadau Deuodau Allyrru Golau (LED) ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan,
- Gosod Gwres a Phŵer Cyfunedig ac Oergell Amsugno yn Ysbyty Nevill Hall,
- Gosod pwmp gwres o'r ddaear yn Ysbyty Abergele,
- Gosod paneli solar yn Ysbyty Glan Clwyd,
- Contract perfformiad ynni ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda. Cymharu'r mathau o effeithlonrwydd ynni neu ddulliau o leihau carbon oedd y nod, a hynny er mwyn tynnu sylw at arfer gorau, dysgu gwersi a nodi'r mentrau llwyddiannus y gellir eu rhoi ar waith ar draws sefydliadau'r GIG.



Effeithlonrwydd Ynni yn GIG Cymru



Prif ddarganfyddiadau

Mae goleuadau Deuodau Allyrru Golau (LED) yn faes y gellir ei ystyried ar unwaith, a gellir ei ddefnyddio ar draws Cymru. Trwy weithio â'r gosodwyr iawn, mae gosod y goleuadau yn gymharol gyflym a hawdd, heb darfu'n ormodol ar wasanaethau. Gall ddarparu arbedion sylweddol ac hirdymor gan osgoi costau o gymharu â goleuadau fflwroleuol.

Mae gan offer tair cenhedlaeth (hynny yw, Gwres a Phŵer Cyfunedig (GPhC) - yn yr achos hwn, defnyddio GPC i ddarparu trydan ac ynni thermol ac oergell amsugno ar gyfer oeri) botensial amlwg yn y cyd-destun iawn. Mae'r galw am oeri yn cynyddu effeithiolrwydd GPhC gan ei fod yn galluogi mwy o ddefnydd o'r allbwn thermol y tu allan i'r tymor gwresogi.

Mae'n werth ymchwilio ymhellach i Bwmp Gwres o'r Ddaear Ysbyty Abergele, gan fod y dadansoddiadau cychwynnol yn awgrymu bod yr effaith ar berfformiad yr adeilad yn gadarnhaol. Serch hynny, mae angen rhagor o ddata er mwyn ennyn hyder yn y dechnoleg. Mae ffigurau cadarn a data dibynadwy yn bwysig i bob cynllun er mwyn sicrhau bod y perfformiad a ragwelir yn cyd-fynd â'r perfformiad gwirioneddol. Gall ynni solar ffotofoltaidd ac enghreifftiau eraill o ynni adnewyddadwy ddarparu arbedion bob blwyddyn, er y bydd hyn yn dibynnu ar gyfraddau'r Tariff Bwydo i Mewn, sydd wedi ei leihau yn sylweddol. O safbwyt gwresogi, nid yw hyn wedi effeithio ar y Cymhelliaid Gwres Adnewyddadwy hyd yma, ond mae'r newidiadau i'r Tariff yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhagweld effeithiau economaidd hirdymor cymorthdaliadau ynni adnewyddadwy, a'u deall.

Cyllid

Mae Contractau Perfformiad Ynni trwy bartneriaeth sydd â lleiafswm o arbedion gwarantedig i gynlluniau mawr, megis fframwaith RE:Fit Cymru, yn ffynhonnell ddeniadol o gyfalaf lle nad oes llawer o gyllid canolog ar gael. Mae defnyddio tîm prosiect cryf ar y cyd â deall faint o adnoddau y bydd eu hangen er mwyn monitro a chynnal perfformiad yn hollbwysig. Mae hefyd yn hollbwysig meithrin perthynas dda sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn llwyddiannus yn yr hirdymor.

Mae rhaglen Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell cyllid arwyddocaol i'w hystyried. Mae'n fwyaf addas i gynlluniau ar wahân y gellir eu rhoi ar waith yn gymharol hawdd a lle gwelir yr adenillion o fewn tua 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae angen cyfraniad cyfwerth â 25% oddi wrth y Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth.

Hoffai Chris gydnabod cymorth arbenigol Rheolwyr Ynni a'u timau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Heb hyn, ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal yr astudiaeth.

Mae'r adroddiad llawn sy'n cynnwys sylwebaeth a dadansoddiad manwl ar gael trwy e-bostio Christopher Lewis, GYA y Bartneriaeth Cydwasaethau, Christopher.lewis4@wales.nhs.uk, neu drwy ffonio 02920 904096

Golwg ar ein Systemau Rheolaeth Amgylcheddol ac Ynni

Chris Lewis yw Ymgynghorydd Rheolaeth Amgylcheddol y GYA. Ei waith yw cyngori sefydliadau yn GIG Cymru ynghylch pob agwedd ar reolaeth amgylcheddol ac ynni yn Ystâd y GIG, ar y cyd ag adrodd i Lywodraeth Cymru a'i chyngori.

Dyma gipolwg ganddo o'i fydd gwaith...

Rydw i wedi gweithio i GYA am dros 13 o flynyddoedd felly mae gen i afael eitha' da ar faterion amgylcheddol yn GIG Cymru. Teg yw dweud bod fy swydd wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn - ailgylchu a lleihau gwastraff clinigol a mathau eraill o wastraff oedd y ffocws pan ddechreuais i, ond dros y blynnyddoedd rydw i wedi dechrau ymwneud â rheoli ynni ac mae ffocws polisi cenedlaethol wedi symud tuag at yr agenda cynaliadwyedd ehangach. Maes arall sy'n newid yw ISO 14001, sef safon ryngwladol sy'n penu'r gofynion ar gyfer systemau rheoli amgylcheddol effeithiol. Mae rhaid bod pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth wedi ardystio, felly mae ffocws fy ngwaith wedi newid dros y blynnyddoedd o'u helpu i gyflawni hyn i gefnogi'r prosesau sydd bellach yn eu lle.

Mae rhaid i bob adeilad newydd, neu bob prosiect cyllid cyfalaf mawr Llywodraeth Cymru, gyflawni 'rhagoriaeth' neu 'da iawn' o dan Feincnod Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Teclyn asesu cynaliadwy yw hwn yn y bôn, ac mae'n gweithio trwy ddyrrannu credydau am elfennau cynaliadwy mewn dyluniad adeilad. Y perygl sydd ynghlwm wrth ddefnyddio system o'r fath yw y gall sefydliad adeiladu mewn dull sydd ddim yn gynaliadwy, ond ennill sgôr BREEAM dda gan ychwanegu nodweddion cynaliadwy (megis paneli ffotofoltaidd ar y to). Gallwn ni atal hyn trwy gymryd rhan mewn prosiectau o'r dechrau a chydweithio'n agos â'r tîm achos busnes.

Mae arbenigwyr amgylcheddol wedi eu gwasgaru ledled GIG Cymru. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod gennym ni blatfform sy'n ein galluogi i rannu gwybodaeth amgylcheddol arbenigol. Rydw i'n cynnal Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru - sef grŵp sy'n darparu'r fath blatfform ar gyfer rhwydweithio a rhannu gwybodaeth. Mae'n mynd yn dda ers rhyw 15 mlynedd erbyn hyn.

Mae tri grŵp sy'n cwrdd bob chwarter er mwyn rhannu arfer da neu drafod problemau, ar y cyd â thrafod technolegau a deddfwriaeth newydd. Rydw i hefyd yn trefnu cyflwyniad ar gyfer pob cyfarfod. Cynhelir ein cyflwyniad diweddaraf gan gwmni symud sy'n mynd ag offer arbenigol o ysbytai a labordai prifysgolion, cyn ei hadnewyddu a'i gwerthu am gyfran o'r elw.

Dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau anfon unrhyw gwestiynau am reolaeth amgylcheddol neu ynni at Chris Lewis trwy e-bostio:

christopher.lewis4@wales.nhs.uk



Canllawiau Newydd

Cyfres o ddogfennau yw **Welsh Health Building Notes (WHBNs)** sy'n rhoi arweiniad ynghylch cynllunio a dylunio ystod o adeiladau iechyd sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yng Nghymru. Ers ein Taflen Newyddion ddiwethaf, rydym ni wedi cyhoeddi'r canlynol:

[WHBN 00-02 - Revision 1, December 2016
Sanitary spaces](#)

[WHBN 03-01 Adult acute mental health units](#)



Cyfres o ddogfennau yw **Welsh Health Technical Memoranda (WHTMs)** sy'n rhoi arweiniad technegol ynghylch ystod eang o systemau arbenigol yn ystâd iechyd Cymru. Ers ein Taflen Newyddion ddiwethaf, rydym ni wedi cyhoeddi'r canlynol:

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Management and provision](#)

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Engineering, equipment and validation](#)

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Social care](#)

[WHTM 01-04 - Decontamination of linen for health and social care: Guidance for linen processors implementing BS EN 14065](#)

[WHTM 01-06 - Decontamination of flexible endoscopes Part D: Validation and verification \(including storage/drying cabinets\)](#)


[WHTM 01-06 - Decontamination of flexible endoscopes Part E: Testing methods](#)

[WHTM 04-01: Safe water for healthcare premises
- Part A: Design, installation and commissioning](#)


[WHTM 04-01: Safe water for healthcare premises
- Part B: Operational management](#)

[WHTM 04-01 Safe water for healthcare premises
- Part C: Pseudomonas aeruginosa – advice for augmented care](#)

[WHTM 08-02 - Lifts](#)



GYA - Digwyddiadau Hyfforddi



O bryd i'w gilydd, rydym ni'n cynnal digwyddiadau hyfforddi er mwyn ateb y galw gan gwsmeriaid GIG Cymru neu er mwyn hysbysu'r Gwasanaeth am newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth. Dyma rai enghreifftiau o'r digwyddiadau a drefnwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

- Section 710 Medical Locations Training;
- BS5266-1 2016 Update Workshops;
- Primary Care Sale and Lease Back Workshops;
- ICEL Foundation Course on Emergency Lighting.
- 'Electrical Infrastructure within an Acute Hospital'.

Oes oes gennych chi bwnc a fydd yn eich barn chi yn ddigwyddiad hyfforddi defnyddiol, ffoniwch Joanne Munn ar 02920 904084 neu e-bostiwch joanne.munn@wales.nhs.uk.

Rydym ni'n edrych ymlaen at glywed gennych chi.



Customer Service Excellence

'Canfuwyd bod gan Wasanaethau Ystadau Arbenigol ddealltwriaeth ddofn o Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ac ymrwymiad iddi. Roedd yr ymrwymiad hwn i'w weld o lefelau'r Uwch Dîm Rheoli i lawr i weithrediadau a staff rheng flaen'.

Rhoddwyd cyflwyniad disglaire i'r adroddiad diweddaraf ynghylch y Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Arbenigol a dderbyniwyd ym mis Chwefror 2017. Mae'r wobr, sydd wedi ei dyfarnu am dair blynedd arall, yn destament i holl waith caled staff GYA wrth ddarparu gwasanaethau ystadau a chyfleusterau i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae cefnogaeth barhaus gan gwsmeriaid hefyd yn hanfodol.

Fel rhan o'r archwiliad eleni, ymwelodd yr asesyydd â Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn magu dealltwriaeth well o'r gwaith rheoli prydlesi a wnaed gan Andrew Nash, sy'n gweithio i adran Eiddo'r GYA. Mae hyn yn ymwneud â Iechyd Cyhoeddus Cymru yn symud o nifer o adeiladau ar draws y De i ddatblygiad newydd Capital Quarter ar Tyndall Street yng Nghaerdydd. Yn y sesiwn adborth ar ddiwedd y dydd, dywedodd yr aseswr y canlynol am yr ymweliad:

'Mae'r gwaith y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ei wneud yn rhagorol. Darparodd Sally Attwood, Pennaeth Rhaglenni Strategol a Chyfleusterau Iechyd Cyhoeddus Cymru, wybodaeth fanwl iawn am y rôl hanfodol y gwaeth staff GYA ei chwarae wrth ymgymryd â phrosiect pwysig a hynod o gymhleth'.

Amlygodd yr adroddiad dilynol y canlynol:

- Deall Cwsmeriaid:** Mae gan GYA ddealltwriaeth ddofn o wahanol anghenion heriol cwsmeriaid
- Deall Cwsmeriaid:** Mae safbwytiau cwsmeriaid wrth wraidd sut y mae'r GYA yn gweithio
- Deall Cwsmeriaid:** Mae wedi ei gydnabod bod yr ymagwedd busnes manwl sy'n cynnwys adolygu strategaethau ac ymarfer, gyda gwasanaethau cwsmeriaid yn rhan bwysig o'r ystyriaethau, wedi gwneud gwahaniaeth.
- Gwybodaeth a Mynediad:** Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn enghraift o waith gwych, gofalus, meddylgar, craff ac adeiladol gyda chwsmeriaid/partneriaid. Roedd y manteision amlwg a chyd-drefnedig wedi eu nodi'n glir gan y cleient, a oedd yn awyddus iawn i bwysleisio pwysigrwydd y mewnbwn.

Cafodd llwyddiant yn yr ailasesiad ei briodoli i broffesiynoldeb ac arbenigedd pob aelod o staff o GYA gan Gyfarwyddwr GYA Neil Davies, ar y cyd â'u hymrwymiad i ddiwallu gofynion gwasanaeth cwsmeriaid a hyd yn oed ragori arnynt.



Diweddariad

Mae cyfweliadau a phrosesau ymsefydlu yn mynd rhagdynt ar garlam! Cafodd y rhan fwyaf o'r daflen newyddion ddiwethaf ei neilltuo i'r newyddion diweddaraf ynglych y nifer sylweddol o newidiadau sydd wedi bod mewn darparwyr gwasanaethau yn y GYA - mae bron i chwarter y swyddi wedi newid o fewn blwyddyn, yn bennaf oherwydd ymddeoliadau.

Mae'r nifer o staff newydd wedi lleihau bellach, gyda dim ond pedwar aelod newydd yn dechrau ers mis Hydref.

Mae John Wright
(john.wright2@wales.nhs.uk neu 02920 904094), Ymgynghorydd Rheolaeth Cyfleusterau, wedi dechrau yn hen rôl Gareth Jenkins. Bydd yn canolbwyntio i ddechrau ar Systemau Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau.

Ym mis Tachwedd, ymunodd Joanne Munn (joanne.munn@wales.nhs.uk neu 02920 904084), â'r tîm rheoli busnes fel Cynorthwyydd Gweinyddol, lle bydd yn darparu cefnogaeth gyffredinol i staff GYA.

Ym mis Ionawr ac Ebrill, ymunodd Cerys Halford (cerys.halford@wales.nhs.uk neu 02920 904114) a Nicole Kruger (nicole.kruger@wales.nhs.uk neu 02020 904112), Syrfewyr Eiddo, â'r sefydliad er mwyn darparu ystod o wasanaethau eiddo i Fyrddau Iechyd/ Ymddiriedolaethau.

Ar ddiwrnod olaf mis Mawrth, ymddeolodd Bryn Phillips, Ymgynghorydd Ystadau ac Eiddo, ar ôl bron i 13 mlynedd gyda ni. Roedd Bryn wedi chwarae rhan bwysig iawn yn ystod y cyfnod hwnnw wrth ddatblygu gwasanaeth eiddo i'r sector gofal sylfaenol, llu bu'n arwain ar ddarparu cyngor a chefnogaeth ym maes datblygiadau gan drydydd partïon mewn practisiau meddyg teulu. Byddwn ni'n gweld eisiau ei wybodaeth, ei brofiad a'i bersonoliaeth. Roedd llawer iawn o bobl wedi dymuno ymddeoliad hir a hapus iddo.



Yn y llun: Cerys Halford a Joanne Munn



Yn y llun: Mark Gapper

Ein Peiriannydd Awdurdodi ar gyfer Dŵr, Mark Gapper, yn sownd yn y mwd ar gyfer clefyd y lleng filwyr

Dylem ni ychwanegu - er gwaethaf yr anaf i'w ben-glin - iddo gwblhau'r ras rwystrau 10k ymhen amser trawiadol.

GIG Cymru - Cornel Hanes

Mae gan y GYA gysylltiad hir â'r ystâd iechyd yng Nghymru, ac mae gennym ni gasgliad helaeth o ffotograffau o adeiladau ysbytai. Mae'n anodd rhagweld dyfodol adeiladu ysbytai yng Nghymru, ond mae'r gorffennol yn fwy sicr. Ar ôl chwilot a yn yr archifau, daethom ni o hyd i hyn...



O'r crud i'r bedd - Ysbyty Tywysog Cymru

Yn 1914, sefydlwyd ysbyty Croes Goch mewn tŷ y cafodd ei adeiladu'n wreiddiol ar gyfer James Howell, sylfaenydd siop adrannol Howell. Yno, gofalwyd am filwyr a anafwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac fe'i henwyd yn "Wales and Monmouthshire Hospital for Limbless Sailors and Soldiers" yn 1917. Dyluniwyd rhan o'r ardd i fod o gymorth i adferiad milwyr â choesau gosod, ac roedd nifer o dwmpathau ar y cyd â llwybr troellog ac iddo rannau serth a rhannau gwastad. Nod hyn oedd galluogi'r dynion i ymarfer cerdded ar wahanol fathau o dir. Cafodd y coesau eu gwneud ar y safle fel y gellid eu teilwra i bob claf.

Ar 20 Chwefror 1918, cafodd ei agor gan Edward VIII a'i ailenwi'n Ysbyty Tywysog Cymru. I nodi'r agoriad, gosodwyd cromlech yn yr ardd flaen, ac mae yno hyd heddiw.

Ysbyty Tywysog Cymru, Caerdydd

Yn ôl cofnodion Archifau Morgannwg, aeth y dynion ar wibdaith i Gaerdydd, ond gan nad oedd yr un faint gyhoeddus i'w gweld eto, nid oedd unman lle gallai'r dynion orffwys. O ganlyniad, bu raid iddynt bwysio yn erbyn rheiliau neu orwedd ar y llawr.

Tyfodd yr ysbyty dros y blynnyddoedd a dechreuodd ofalu am ddinasydion preifat. Symudodd ym 1945 i safle y tu allan i Gaerdydd, i hen ysbyty milwrol ar gyfer cyn filwyr Americanaidd yr oedd wedi ei adeiladu gan Ganadiaid ar ddechrau yr Ail Ryfel Byd. Cabanau Nissen ffurfiodd y rhan fwyaf ohono. Addaswyd y cabanau at y defnydd newydd, er bod y rhan fwyaf o'r adeiladau wedi aros yr un fath - cysylltwyd y cabanau gan goridor, y corridor hwyaf mewn ysbyty yn y DU - a thyfodd i fod yn ganolfan arbenigol ar gyfer trin cleifion orthopedig. Oherwydd natur dros dro yr adeiladau, daeth eu defnydd fel ysbyty i ben gan fod y gwaith cynnal a chadw yn afresymol o ddrud, a chaewyd eu drysu yn 1998.

Hoffech chi inni gynnwys eich ysbyty chi?

Os felly, cysylltwch â Suzanne Pullen:
Suzanne.pullen@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasanaethau
Shared Services
Partnership

Manylion Cyswllt Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Gall y rhai sy'n gweithio yn GIG Cymru ddefnyddio naill ai ein cyfeiriadur gwasanaethau neu restr o staff i ddod o hyd i'r person iawn i wneud y gwaith, a gall y rhai nad ydynt yn gweithio i GIG Cymru ddefnyddio'r rhestr o staff ar ein gwefan.

Ein cyfeiriad post yw:
3ydd Llawr Tŷ'r Cwmniâu, Crown Way, Caerdydd,
CF14 3UB

**Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan
Cyfathrebu Corfforaethol Partneriaeth
Cydwasanaethau Cymru**